

TAG UG a Safon Uwch mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant

Ar gyfer pwy mae'r cymhwyster?

Mae'r cymhwyster TAG UG a Safon Uwch mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant yn addas ar gyfer dysgwyr ôl-16 sydd â diddordeb mewn dysgu am ddatblygiad a gofal unigolion drwy gydol oes o adeg cenhedlu i oedolaeth ddiweddarach. Bydd dysgwyr yn dilyn astudiaeth eang o iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant ar lefel UG, ac wedyn gallant ddewis rhwng dau lwybr ar lefel U2 i ddatblygu dyfnder gwybodaeth a dealltwriaeth naill ai mewn gofal plant neu iechyd a gofal cymdeithasol oedolion.

Mae'r cymhwyster yn cynnig llwybr dilyniant addas ar gyfer dysgwyr sydd wedi astudio cymwysterau Lefel 2 yn y gyfres Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a gofal plant gan gynnwys:

- TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant
- Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau
- Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori
- Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd, neu
- Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd.

Mae'r cymhwyster TAG UG a Safon Uwch mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant hefyd yn addas ar gyfer dysgwyr nad ydynt wedi astudio Iechyd a Gofal Cymdeithasol o'r blaen ond sydd â'r gallu i astudio Lefel 3.

Beth mae'r cymhwyster yn ei gynnwys?

Mae'r cymhwyster yn galluogi dysgwyr i feithrin a dangos eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth o fewn cyd-destun Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a gofal plant.

Mae'r materion cyfredol canlynol wedi'u cynnwys yn y fanyleb:

- hybu Iechyd a Llesiant
- cefnogi Iechyd, Llesiant a gwydnwch yng Nghymru
- persbectifau damcaniaethol ar ddatblygiad plant a phobl ifanc
- cefnogi datblygiad, Iechyd, Llesiant a gwydnwch plant a phobl ifanc
- persbectifau damcaniaethol ar ymddygiad oedolion
- cefnogi oedolion i gynnal Iechyd, Llesiant a gwydnwch.

Strwythur y cymhwyster

Mae'r cymhwyster TAG UG a Safon Uwch mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant wedi'i rannu'n gyfanswm o chwe uned, dwy uned UG (Uned 1 ac Uned 2) a phedair uned U2 (unedau 3, 4, 5 a 6). Mae dysgwyr Safon Uwch yn astudio cyfanswm o bedair uned: dwy uned UG ynghyd â'r ddwy uned U2 yn ymwneud â'r llwybr a ddewiswyd ganddynt.

Uned	Teitl yr Uned	Asesu
1	Hybu iechyd a llesiant	Allanol
2	Cefnogi iechyd, llesiant a gwydnwch yng Nghymru	Mewnol
3	Persbectifau damcaniaethol ar ddatblygiad plant a phobl ifanc	Allanol
4	Cefnogi datblygiad, iechyd, llesiant a gwydnwch plant a phobl ifanc	Mewnol
5	Persbectifau damcaniaethol ar ymddygiad oedolion	Allanol
6	Cefnogi oedolion i gynnal iechyd, llesiant a gwydnwch	Mewnol

Asesu

Mae 50% o'r cymhwyster TAG UG a Safon Uwch mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant yn cael ei asesu'n fewnol a 50% yn cael ei asesu'n allanol. Rhaid i ymgeiswyr gwblhau'r canlynol yn llwyddiannus:

- aseiniadau a osodir yn allanol, a'u marcio'n fewnol
- arholiadau allanol.

Beth y gallai'r cymhwyster hwn arwain ato?

Mae'r cymhwyster yn cynnig sylfaen addas ar gyfer astudio iechyd a gofal cymdeithasol drwy amrywiaeth o gyrsiau addysg uwch, neu i gyflogaeth. Gall dysgwyr hefyd symud ymlaen i gymwysterau eraill o fewn y gyfres iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant.

Yn ogystal, mae'r fanyleb hon yn gwrs astudio sy'n gydlynol, yn foddhaol ac yn werth chweil i'r dysgwyr hynny nad ydynt yn symud ymlaen i astudio ymhellach yn y pwnc hwn

Pwyntiau Tariff UCAS

Mae'r pwyntiau tariff UCAS canlynol ar gael am y cymhwyster TAG UG a Safon Uwch mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal plant:

Gradd	Pwyntiau
A*	56
A	48
B	40
C	32
D	24
E	16

Gwybodaeth bellach

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan Dysgu Iechyd a Gofal Cymru, <https://www.dysguiechydagofal.cymru/>.